

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod y Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	25 Ebrill 2023
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Elin Walker Jones,
Swyddog cyswllt:	Catrin Thomas Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teulu
Manylion cyswllt:	catrinthomas@gwynedd.llyw.cymru 01286 679913
Teitl yr Eitem:	Rhaglenni Dechrau'n Deg a Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- Derbyn cynnig grant i ehangu Rhaglen Dechrau'n Deg yn y sir.
- Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Plant a Theuluoedd mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid i baratoi a chyflwyno achosion busnes i'r Llywodraeth ar gyfer grantiau unigol Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar a derbyn cynigion ar ran y Cyngor.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i'r cyfeiriad ar gyfer ymestyn yr elfen gofal plant o Raglen Dechrau'n Deg yn y sir, ac i gyflwyno achosion busnes i'r Llywodraeth ar gyfer denu arian cyfalaf i gyflawni'r ymestyniad hwnnw ac i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant ehangach yn y sir.

3. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r cytundeb cydweithredu eu nod i ehangu ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob blentyn 2 oed, gan roi pwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg.
- Bydd y Llywodraeth yn cyflawni'r nod yma yn y lle cyntaf drwy ymestyn rhaglen Dechrau'n Deg.

- 3.3. Mae Rhaglen Dechrau'n Deg eisoes ar gael mewn 6 cymuned yng Ngwynedd. Mae'n cefnogi teuluoedd gyda plant 0-4 oed drwy gynig gwasanaeth ymwelwyr iechyd dwys; cefnogaeth teulu; cymorth iaith a lleferydd; a 12.5 awr o ofal plant am ddim i blant pan yn 2 oed.
- 3.4. Y cymunedau sy'n rhan o'r rhaglen ar hyn o bryd yw:-
- Marchog 1 a 2 – Maesgeirchen, Bangor
 - Peblig a Cadnant – Caernarfon
 - Gerlan, Ogwen 1 ac Ogwen 2 a rhannau o Dregarth - Bethesda
 - Talysarn, Llanllyfni, Clynnog Fawr a rhannau o Benygroes
 - Diffwys a Maenofferen, a Bowydd a Rhiw -Blaenau Ffestiniog
 - De Dolgellau
- 3.5. Mae ehangu Dechrau'n Deg i ddigwydd yn raddol. Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar wedi rhoi cam 1af yr ehangu ar waith ers Medi 2022 mewn rhannau ychwanegol o Dregarth a Bethesda a Blaenau Ffestiniog. Bydd 73 plentyn ychwanegol yn elwa o'r cam 1af. Bydd y teuluoedd hyn yn derbyn holl gefnogaeth y Rhaglen Dechrau'n Deg.
- 3.6. Mae 2il gam ehangu Dechrau'n Deg wedi ei gyfyngu i ehangu yr elfen gofal plant yn unig, ac nid yw'n cynnwys ehangu'r gefnogaeth iaith a lleferydd, cefnogaeth teulu nac ymwelwyr iechyd ychwanegol.
- 3.7. Mae'r elfen gofal plant yn golygu y bydd mwy o blant 2 oed yn cael 12.5 awr o ofal plant am ddim am 39 wythnos o'r flwyddyn.
- 3.8. Yn unol a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cam 2 o'r ehangu, sydd i dargedu yr ardaloedd uchaf o ran tlodi plant yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, rydym wedi adnabod yr ardaloedd (LSOA) ble dylid ehangu iddo, sef
- Hendre (Bangor)
 - Penygroes
 - De Pwllheli
 - Abermaw 2
 - Hirael a Garth 2 (Bangor)
 - Porthmadog - Tremadog
 - Bala
 - Teigl (Blaenau Ffestiniog)
 - Seiont 1 (Caernarfon)
 - Dewi (Bangor)

- 3.9. Yn ychwanegol i'r ardaloedd uchod rydym wedi adnabod y cymunedau canlynol fel rhai sydd a lefelau amddifadedd uchel ymysg teuluoedd a plant dan 4 ble gellir ehangu'r ddarpariaeth iddynt drwy drefniadau ymestyn allan y rhaglen graidd; sef
- Llanbedr, Llandderfel a Llanuwchllyn,
 - Deiniolen
- 3.10. Wrth dderbyn y cynnig grant ar gyfer 2il Gam yr ehangu byddwn yn gallu cefnogi 143 yn ychwanegol o blant yn ystod 2023-24.
- 3.11. Bydd yr ehangu graddol hwn yn arwain at greu cynnig gofal plant cyffredin i bob plentyn 2 oed yn 2025.
- 3.12. Yn ychwanegol i ehangu Rhaglen Dechrau'n Deg mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Rhaglen Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar.
- 3.13. Yn seiliedig ar ein cynllun i ehangu Dechrau'n Deg, casgliadau yr asesiad digonolrwydd gofal plant, ac argaeledd y Cynnig Gofal Plant i blant 3-4 oed rydym wedi adnabod yr ardaloedd hynny ble mae angen buddsoddiad ar gyfer greu mwy o lefydd gofal.
- 3.14. Rydym wedi cyflwyno rhestr ardaloedd blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys y cymunedau canlynol:-
- Penygroes
 - Pwllheli
 - Hirael Bangor
 - Hendre Bangor
 - Deiniolen
 - Pen Llŷn
 - Penrhyndeudraeth
- 3.15. Byddwn yn ystod 2023-24 yn gallu ymgeisio am grant cyfalaf ar gyfer buddsoddi yn yr ardaloedd hyn. Nid oes sicrwydd o'r grant, nac o lwyddiant unrhyw achos fusnes unigol ar y pwynt hwn, gan mai dim ond rhestr darluniol yn unig sydd gennym ar hyn o bryd. Bydd yn rhaid i bob achos fusnes unigol brofi yr angen, cwrdd gyda canllawiau'r rhaglen gyfalaf a dangos y gallu i gyflawni a chwblhau oddi fewn i amserlen y rhaglen.
- 3.16. Er y bydd y rhaglen gyfalaf yn ein helpu i greu mwy o ofod gofal plant yn y sir, mae heriau recriwtio gweithwyr i'r sector, a digonolrwydd a chynladwyedd rhai o'r darparwyr yn her wrth i ni geisio ehangu'r ddarpariaeth gofal plant.
- 3.17. Bydd manteisio ar y ddwy raglen blynyddoedd cynnar yma yn cyfrannu tuag at meysydd Blaenoriaeth "Gwynedd Yfory" a

"Gwynedd Gymraeg" yng Nghynllun y Cyngor drwy roi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant; ac yn cynyddu'r nifer o lefydd addysg gynnar a gofal plant cyfrwng Cymraeg.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 4.1. Derbyn cynnig grant i barhau gyda ehangu rhaglen Dechrau'n Deg erbyn 30 o Ebrill 2023.
- 4.2. Symud i gomisiynu darpariaeth gofal plant 2 oed yn yr ardaloedd a dargedir yn ystod 2023-24.
- 4.3. Paratoi a cyflwyno achos fusnes ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf yn ystod 2023-24.

5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 5.1. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

- 5.2. Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

"Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir. Fel mae'r adroddiad yn egluro, bydd y grant arfaethedig yn rhoi cyfle i Cyngor Gwynedd ymestyn y rhaglen Dechrau'n Deg. Gallaf gadarnhau bydd swyddogion Cyllid yn cefnogi'r Adran Plant a Chefnogi Theuluoedd wrth weinyddu unrhyw arian grant byddwn yn ei dderbyn ar gyfer y rhaglen. Byddwn hefyd yn cyfrannu i'r drefn o ddarparu'r cais am adnoddau cyfalaf."